# Aelodau Bwrdd

# Cynnwys


Gwybodaeth gefndirol ..... 5

Dathlu pymtheg mlynedd ..... 6

Ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg ..... 7

Bwrdd y Coleg ..... 8

Rheolaeth y Coleg ..... 9

Mwy o wybodaeth am Fwrdd y Coleg ..... 10

Aelodau Bwrdd presennol y Coleg: ..... 11

Gofynion profiad ac arbenigeddau ..... 12

Manyleb rôl Aelod Bwrdd ..... 14

Manyleb Person ..... 15

Cyfrifoldeb aelod Bwrdd ac Ymddiriedolwr ..... 16

Manylion pellach ..... 18

Gwneud Cais ..... 20

# Pecyn gwybodaeth: aelodau Bwrdd newydd

Gwahoddir ceisiadau gan unigolion i wasanaethu ar Fwrdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (y Coleg) fel Cyfarwyddwr Anweithredol ac Ymddiriedolwr.

Mae hwn yn gyfle cyffrous i unigolion sydd yn awyddus i ddefnyddio'u sgiliau a phrofiadau i ymuno â thîm sy'n arwain corff cynllunio cenedlaethol uchelgeisiol sydd â'r Gymraeg wrth galon ei weledigaeth a'i bwrpas.

Mae'r Coleg yn gweithio gyda cholegau addysg bellach, prifysgolion, sefydliadau sy'n cynnig prentisiaethau, a chyflogwyr i greu cyfleoedd hyfforddi ac astudio yn Gymraeg. Ry'n ni'n ysbrydoli ac yn annog pawb i ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg. Ein nod ni fel Coleg yw creu system addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog sy'n agored i bawb ac i ddatblygu gweithluoedd dwyieithog.

## Penodiadau newydd i Fwrdd y Coleg

Rydym yn chwilio am unigolion sydd â phrofiad o arwain yn strategol ac sy'n gallu ychwanegu at yr amrywiaeth sgiliau a safbwyntiau sydd ar ein Bwrdd.

Bydd y penodiadau am dymor o bedair blynedd, gyda'r cyfle i wasanaethu am dymor pellach o bedair blynedd. Bydd y penodiadau yn cychwyn ar wahanol adegau, gyda hyd at bedwar penodiad yn cychwyn ym mis Tachwedd 2026. Mae'n bosib y gwneir penodiadau pellach i gychwyn yng ngwanwyn 2027. Bydd y Coleg hefyd yn edrych i benodi Cadeirydd newydd i'r Bwrdd yn ystod y cyfnod yma.

Disgwylir ymrwymiad amser o oddeutu 12 diwrnod ar hyd y flwyddyn.

Mae'r rôl yn un wirfoddol, ond telir treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill.

Mae'r Coleg yn chwilio am unigolion sy'n cynnig ystod o brofiadau ac arbenigeddau gwahanol i'n Bwrdd. Mae'r Coleg yn ymrwymedig i adlewyrchu poblogaeth Cymru ac yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bobl Ddu ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig.

Ceir Manyleb Rôl a Manyleb Person yn ail hanner y pecyn yma. Am ddisgrifiad o gyfrifoldebau cyffredinol aelodau o fyrddau llywodraethu cyrff fel y Coleg, gweler yr adran 'Cyfrifoldebau aelod Bwrdd ac Ymddiriedolwr'.

# Gwybodaeth gefndirol

Gweledigaeth y Coleg yw fod y Gymraeg yn rhan o batrwm dysgu gydol oes pobl Cymru. Mae hon yn weledigaeth arloesol a fydd yn sicrhau fod y Coleg yn gwneud cyfraniad sylweddol at dargedau *Strategaeth Cymraeg 2050* yn y sector addysg drydyddol.

Rydym yn gorff cynllunio strategol a chenedlaethol, gyda'r Gymraeg wrth wraidd ein pwrpas a'n gweledigaeth. Mae ein Cynllun Strategol, a lansiwyd ym mis Chwefror 2020, yn llywio ein gwaith ac yn adeiladu ar gyflawniadau'r Coleg ers ein sefydlu. Bydd y Coleg yn cyhoeddi Cynllun Strategol newydd cyn diwedd 2026, gan osod y cyfeiriad ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

Mae'r Cynllun hwnnw'n gosod allan weledigaeth uchelgeisiol a chyffrous a fydd yn agor pennod newydd yn hanes y Coleg. Rydym yn sylweddoli fod angen dylanwadu ar y system cyfan o'n cwmpas er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, ac felly mae gweithio mewn partneriaeth, cefnogi ac ysbrydoli eraill, a chydweithio gyda darparwyr addysg a hyfforddiant ar draws y sector addysg trydyddol yn allweddol i gyflawni hynny.

Am y rheswm hynny, ry'n ni'n awyddus i ddenu unigolion brwdfrydig, ymroddedig a gweithgar i ymuno gyda Bwrdd y Coleg.

Rôl y Bwrdd yw llywodraethu'n gryf ac arwain yn effeithiol, gweithio gyda'r staff gweithredol i ddiffinio a datblygu cyfeiriad strategol, a phennu amcanion heriol.

# Dathlu pymtheg mlynedd

Eleni,  mae'r Coleg yn dathlu ei bymtheng mlwyddiant. Sefydlwyd y Coleg yn 2011 yn dilyn penderfyniad polisi Llywodraeth Cymru i greu sefydliad cenedlaethol i gynllunio a chydlynu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y prifysgolion, gan weithredu ar sail yr egwyddor bod modd trin a thrafod unrhyw ddisgyblaeth academaidd neu alwedigaethol yn y Gymraeg.

Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn rhychwant y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein prifysgolion dros y ddegawd diwethaf a bellach mae cymuned gref o ddarlithwyr ac addysgwyr cyfrwng Cymraeg yn gweithio ledled Cymru, a chynnydd hefyd yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio rhywfaint o'u cwrs addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2018 mae cyfrifoldebau'r Coleg hefyd wedi'u hymestyn i gynnwys y sectorau addysg bellach a phrentisiaethau. Mae hyn wedi cynnig cyfle arloesol i wreiddio'r Gymraeg mewn colegau addysg bellach ac mewn gweithleoedd ar draws Cymru i raddau nas welwyd o'r blaen. O ystyried y niferoedd o ddysgwyr a hyfforddeion sy'n cofrestru bob blwyddyn yn y sector ôl-16, a'u cyswllt uniongyrchol â'r economi, cyflogaeth, gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau Cymru, mae cyfle euraidd i wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau Strategaeth Cymraeg 2050 yn ogystal â gwireddu strategaethau Llywodraeth Cymru mewn meysydd eraill.

# Ymestyn cyfrifoldebau'r Coleg

Yn sgil Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 sefydlwyd Medr (Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil) sydd â chyfrifoldeb am gynllunio, cyllido, a rheoleiddio'r holl sector addysg drydyddol yng Nghymru. Dechreuodd Medr weithredu'n swyddogol ar 1 Awst 2024, ac ymhlith ei ddyletswyddau strategol y mae'n gyfrifol am hybu ac annog addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Gweinidogion Cymru wedi dynodi'r Coleg yn gorff i gynghori Medr ar ei ddyletswyddau yn ymwneud â'r Gymraeg, gan roi rôl strategol cenedlaethol pwysig a dylanwadol i'r Coleg. Yn ei gyngor cyntaf i Medr ym mis Medi 2024 amlinellodd y Coleg weledigaeth uchelgeisiol:

*'bod pob dysgwr yn defnyddio, cynnal a datblygu eu Cymraeg yn ystod eu haddysg neu hyfforddiant trydyddol'.*

Yn ogystal â darparu cyngor ffurfiol o dan y dynodiad, mae'r Coleg hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau polisi Medr ar faterion megis eu cynllun strategol, y fframwaith rheoleiddio, fframwaith ansawdd, cod ymgysylltu â dysgwyr, cynlluniau amddiffyn dysgwyr, ayyb. At hynny, mae'r Coleg hefyd yn weithgar iawn yn ymateb i ymgynghoriadau ac ymchwiliadau pwyllgorau seneddol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg a'r Gymraeg, ac yn cydweithio'n agos gyda chyrff megis Medr, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Cymwysterau Cymru, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a chyrff sectorol sy'n cynrychioli darparwyr addysg drydyddol megis Prifysgolion Cymru, ColegauCymru, NTfW a CYDAG.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith y Coleg ar ein gwefan.

# Bwrdd y Coleg

Mae Bwrdd y Coleg yn cynnwys hyd at ddeuddeg aelod sy'n gweithredu fel Cyfarwyddwyr Anweithredol ac Ymddiriedolwyr. Penodir aelodau'r Bwrdd drwy broses o hysbysebu'n agored.

Mae'r Bwrdd yn darparu arweiniad strategol i'r Coleg trwy bennu blaenoriaethau, cytuno ar ddyraniad adnoddau, ac adolygu cynnydd yn erbyn amcanion. Mae hefyd yn craffu ar effeithiolrwydd gweithredu'r Coleg ac yn cydweithio'n agos â'r Prif Weithredwr a'r tîm rheoli i sicrhau bod y Coleg yn cyflawni ei nodau.

Mae'r Bwrdd yn dirprwyo rhai o'i gyfrifoldebau i is-bwyllgorau sefydlog, sef:

- Pwyllgor Archwilio a Risg
- Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol
- Pwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant

Dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd yn 2026/27 (i'w cadarnhau'n derfynol) fydd:

- 18 Tachwedd 2026
- 17 Mawrth 2027
- 30 Mehefin 2027

# Rheolaeth y Coleg

Mae gan y Coleg dîm o staff canolog, wedi eu lleoli mewn swyddfeydd yng Nghaerfyrddin, Caerdydd, Aberystwyth a Chaernarfon. Ers sefydlu'r Coleg yn 2011, Dr Ioan Matthews yw'r Prif Weithredwr sydd wedi arwain y Coleg drwy sawl cyfnod o dwf strategol, ac wedi sicrhau bod y Coleg wedi chwarae rôl allweddol wrth i ddarpariaeth Gymraeg a dwyieithog ddatblygu ar draws y sector drydyddol. Mae ei arbenigedd ym maes polisi addysg a'i ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg wedi bod yn sylfaenol i lwyddiant y Coleg dros y blynyddoedd.

Prif noddwr y Coleg yw Llywodraeth Cymru ac mae'n ddyletswydd ar y Bwrdd i sicrhau bod nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, fel y'u nodir yn y llythyr grant blynyddol i'r Coleg, yn cael eu gwireddu'n effeithiol.

# Mwy o wybodaeth am Fwrdd y Coleg

Ceir mwy o wybodaeth am y Coleg, gan gynnwys y canlynol, ar ein gwefan:

- Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu;
- Adroddiad Blynyddol y Coleg;
- Cynllun Strategol y Coleg;
- Gwybodaeth am y berthynas rhwng y Coleg a Medr
- Y Cynllun Academaidd Addysg Uwch;
- Y Cynllun Gweithredu Addysg Bellach;
- Gwybodaeth am Fwrdd y Coleg a'i is-bwyllgorau;
- Gwybodaeth am grantiau a chynlluniau cefnogi prosiectau, cynllun y Darlithwyr Cysylltiol, y Cynllun Gwreiddio, a gweithgareddau'r Coleg mewn gwahanol feysydd;
- Gwybodaeth am ysgoloriaethau israddedig ac ysgoloriaethau ymchwil ôl-raddedig y Coleg;
- Newyddion, Digwyddiadau a Blogiau.

# Aelodau Bwrdd presennol y Coleg:

- Dr Aled Eirug, Cadeirydd (hyd at 31 Awst 2026)
- Ann Beynon, Cadeirydd dros dro (o 1 Medi 2026)
- Nia Elias
- Angharad Roberts
- Meri Huws
- Yr Athro Anwen Jones
- Yr Athro Enlli Thomas
- John Hayes
- Yusuf Ibrahim

# Gofynion profiad ac arbenigeddau

Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gallu diwallu ei gyfrifoldebau'n gywir ac yn effeithiol, disgwylir i'r aelodau gyfrannu amrywiaeth o sgiliau a phrofiad. Mae gan yr aelodau presennol gyfoeth o brofiad ar draws nifer o feysydd, gan gynnwys o'r tu allan i'r sector addysg.

Rydym yn chwilio am unigolion sydd:

- â'r gallu a phrofiad o arwain yn strategol ar lefel uchel, gan gyfrannu at osod cyfeiriad tymor hir y Coleg a monitro perfformiad yn effeithiol;
- yn deall pwysigrwydd addysg drydyddol, yn gallu ymdrin â gwybodaeth gymhleth, craffu ar a chloriannu data, ac yn gallu cysylltu'r cyfan er mwyn hyrwyddo buddiannau'r iaith Gymraeg;
- â'r gallu i feddwl yn annibynnol ac i herio'n adeiladol, gan gyfrannu'n eiddgar at drafodaethau'r Bwrdd;
- â gwerthoedd sy'n cyd-fynd â gweledigaeth a phwrpas y Coleg.

**Mae Bwrdd y Coleg yn awyddus i ddenu ymgeiswyr a fydd yn cryfhau'r ystod o sgiliau a phrofiadau sydd gan y aelodau presennol o ran yn benodol:**

- **y gyfraith**
- **cyllid a/neu gyfrifeg**
- **archwilio a rheoli risg**
- **gwasanaethau gwybodaeth a diogelwch seibr**
- **marchnata**

Mae’r Coleg hefyd yn awyddus i sicrhau bod y Bwrdd yn adlewyrchu poblogaeth Cymru gyfan. Rydym yn croesawu ceisiadau gan unigolion o ystod eang o oedrannau, cefndiroedd ac ardaloedd daearyddol. Byddwn yn croesawu ceisiadau gan bobl Ddu ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, gan gydnabod gwerth amrywiaeth o safbwyntiau wrth lywio gwaith y Bwrdd.

# Manyleb rôl Aelod Bwrdd

Mae rôl Aelod o'r Bwrdd yn cynnwys:

- Paratoi ar gyfer, a mynychu, pob cyfarfod o'r Bwrdd, gan gyfrannu at drafodaeth a phenderfyniadau strategol allweddol sy'n llywio cyfeiriad y Coleg;
- Gweithio'n agos â'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, gan gynnig cyngor a chefnogaeth mewn perthynas â llunio, datblygu a gweithredu polisïau, yn ogystal â chyflawni amcanion strategol y Coleg;
- Darparu cyngor awdurdodol ac amserol i'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, yn ôl yr angen, rhwng cyfarfodydd ffurfiol;
- Cadeirio neu fod yn aelod o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd a'r Coleg, yn ôl yr angen, gan gyfrannu at waith mwy manwl a phenderfyniadau pwyllgorau;
- Cyfrannu at effeithiolrwydd cyffredinol y Bwrdd a'i bwyllgorau, gan gynnal safonau uchaf o lywodraethu corfforaethol, unplygrwydd a thegwch;
- Cefnogi'r Coleg i gydweithio'n effeithiol gyda'r sector drydyddol yng Nghymru, rhanddeiliaid, a chyrff perthnasol eraill.

# Manyleb Person

- Gallu i feddwl a gwneud penderfyniadau strategol ar draws ystod eang o faterion cymhleth, ynghyd â'r gallu i gydweithio'n effeithiol fel rhan o dîm i gefnogi penderfyniadau ar y cyd;
- Gallu ymdrin â gwybodaeth gymhleth, craffu ar a chloriannu data;
- Gallu cyfathrebu'n glir ac yn hyderus ar lefel Bwrdd;
- Ymrwymiad i sicrhau gwasanaeth o'r ansawdd uchaf, gan hyrwyddo effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd;
- Dealltwriaeth o bwysigrwydd addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg;
- Gallu cysylltu'r ddealltwriaeth honno am addysg drydyddol â'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd a diwylliannol yng Nghymru, gan adlewyrchu buddiannau'r iaith Gymraeg ac anghenion unigolion, cymunedau a chyflogwyr;
- Ymrwymiad clir i Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus (Nolan), ynghyd â dealltwriaeth o faterion cydraddoldeb ac ewyllys i herio unrhyw weithdrefnau gwahaniaethol;
- Ymrwymiad i weithredu er budd y Coleg yn gyntaf, gan roi unrhyw rwymedigaethau neu fuddiannau personol yn eilradd wrth gyflawni dyletswyddau fel aelodau o'r Bwrdd;
- Ymrwymiad i nodau'r Coleg, gan gefnogi datblygiad a chynnydd darpariaeth addysg drydyddol drwy gyfrwng y Gymraeg ac ethos y Coleg fel sefydliad Cymraeg;
- Parodrwydd ymrwymo'n llawn i'r rôl, gan gynnwys amser i baratoi ar gyfer a mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd.

# Cyfrifoldeb aelod Bwrdd ac Ymddiriedolwr

Yn gyfansoddiadol, mae'r Coleg yn gwmni cyfyngedig drwy warant a hefyd yn elusen. O ganlyniad, mae aelodau'r Bwrdd yn Gyfarwyddwyr Anweithredol ar y cwmni, a hefyd yn Ymddiriedolwyr o'r elusen. Mae'n rhaid i'r Coleg ac aelodau'r Bwrdd gydymffurfio â deddfwriaeth cwmnïau a deddfwriaeth elusennol, a gyda rheolau a rheoliadau Tŷ'r Cwmnïau a hefyd Comisiwn Elusennau Cymru a Lloegr. Mae aelodau Bwrdd yn gyfrifol am lywodraethu a goruchwylio rheolaeth gyffredinol y corff, gan sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn effeithiol ac yn cydymffurfio â'i holl ddyletswyddau cyfreithiol.

**Cyfrifoldebau allweddol**

- Gweithredu er budd gorau'r corff bob amser a sicrhau bod ei weithgareddau yn gyson gyda ac yn cyfrannu at gyflawni amcanion y corff, ac er budd y cyhoedd
- Gwneud penderfyniadau gwybodus, gan gymryd cyfrifoldeb ar y cyd gydag aelodau eraill
- Diogelu adnoddau'r corff, gan gynnwys cyllid, asedau, ac enw da.
- Sicrhau rheolaeth ariannol, adrodd ac atebolrwydd priodol

**Gweithredu fel Aelod Bwrdd**

- Gweithio ar y cyd â chyd-aelodau (fel cyfarwyddwyr anweithredol ac ymddiriedolwyr), gan rannu'r cyfrifoldeb am bob agwedd o waith y corff

- Mynychu a pharatoi ar gyfer cyfarfodydd Bwrdd ac unrhyw bwyllgorau, gan gyfrannu at drafodaethau a gwneud penderfyniadau
- Monitro perfformiad, rheoli risgiau a sefyllfa ariannol y corff

**Safonau ymddygiad**

- Rhoi'r corff yn gyntaf, gan osgoi budd neu ddylanwad personol
- Nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau yn agored ac yn briodol
- Gweithredu gydag uniondeb, gonestrwydd a thryloywder i gynnal ymddiriedaeth y cyhoedd

**Cydymffurfiaeth ac atebolrwydd**

- Sicrhau bod y corff yn cwrdd â'i ddyletswyddau adrodd (e.e. ffurflenni a chyfrifon blynyddol)
- Sicrhau bod ganddynt fel aelodau ymwybyddiaeth gyfredol o ofynion a rheolau a rheoliadau Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau
- Sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion cyfreithiol perthnasol
- Sicrhau bod polisïau, rheolaethau a phrosesau llywodraethu cadarn ac addas yn eu lle, yn cael eu gweithredu ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd

Am ragor o wybodaeth am gyfrifoldebau Ymddiriedolwyr, gweler Pecyn croeso ymddiriedolwyr elusen gan y Comisiwn Elusennau.

# Manylion pellach

**Tymor y penodiad**

Mae'r Coleg yn edrych i benodi aelodau newydd i wasanaethu ar ein Bwrdd am bedair blynedd. Penodir hyd at 4 aelod newydd i ddechrau ym mis Tachwedd a hyd at 2 arall ym mis Mawrth.

Bydd hyd at 4 penodiad newydd i'w gwneud yn y tymor byr. Bydd yr aelodau hyn yn gwasanaethu am bedair blynedd o 18 Tachwedd 2026 hyd 17 Tachwedd 2030.

Daw tymor 2 aelod arall o'r Bwrdd presennol i ben rhwng Chwefror a Mawrth 2027, felly mae'n bosibl y bydd y panel penodiadau yn adnabod ymgeiswyr addas eraill i'w penodi yn ddiweddarach yng ngwanwyn 2027.

Penodir aelodau'r Bwrdd am gyfnod o bedair blynedd, gyda'r posibilrwydd o wasanaethu am un tymor pellach.

**Ymrwymiad o ran amser**

Bydd Bwrdd y Coleg yn cyfarfod o leiaf deirgwaith y flwyddyn, ac mae pwyllgorau'r Bwrdd hefyd yn cwrdd unwaith bob tymor. At ei gilydd, disgwylir i aelodau'r Bwrdd neilltuo oddeutu 12 diwrnod ar hyd y flwyddyn i gyflawni eu dyletswyddau i'r Coleg.

**Iaith weithredol y Coleg**

Cymraeg yw iaith weithredol y Coleg. Cynhelir holl gyfarfodydd y Coleg yn y Gymraeg, gan ddarparu cyfleusterau cyfieithu-ar-y-pryd, yn ogystal â phapurau perthnasol yn y Saesneg, i aelodau Bwrdd a phwyllgorau nad

sy'n siarad Cymraeg yn ôl yr angen. Mae hyn yn creu amgylchedd lle gall pawb gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau, ac i'r rheiny sydd ddim yn siarad Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau a chodi eu hyder mewn awyrgylch ddwyieithog. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd ac i bobl o wahanol gefndiroedd ac o bob rhan o Gymru. Byddwn yn croesawu ceisiadau gan bobl o bob cefndir.

**Cydnabyddiaeth a Threuliau**

Rôl wirfoddol yw hon. Fodd bynnag, mae aelodau'r Bwrdd yn gallu hawlio treuliau teithio a threuliau rhesymol eraill a all godi wrth wneud gwaith ar ran y Coleg.

**Datgan buddiannau**

Dylai ymgeiswyr ddatgan unrhyw fuddiannau personol, proffesiynol neu fusnes a all greu gwrthdaro buddiannau neu ddylanwadu ar eu barn wrth weithredu fel aelod o Fwrdd y Coleg.

# Gwneud Cais

Croesewir ceisiadau gan bob rhan o’r gymuned. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn cael eu gweithredu a gwneir penodiadau ar sail teilyngdod.

**Datganiad amrywiaeth**

Mae’r Coleg yn cydnabod pwysigrwydd cael Bwrdd sy’n adlewyrchu amrywiaeth eang o ddiwylliannau, hunaniaethau a chefndiroedd. Rydym yn annog ceisiadau o bob rhan o’r gymdeithas, ac rydym am benodi o’r gronfa o dalent ehangaf a mwyaf amrywiol posibl.

Rydym yn croesawu ceisiadau gan bawb heb ystyried oedran, statws priodasol (gan gynnwys priodas rhwng pobl o'r un rhyw) a phartneriaeth sifil, cyfeiriadedd rhywiol, rhyw, hunaniaeth rhywedd, amhariad neu gyflwr iechyd, hil, crefydd neu gred, na beichiogrwydd.

Rydym wedi ymrwymo i recriwtio menywod, pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl ac aelodau o'r gymuned LHDTC+, sydd heb eu cynrychioli’n ddigonol yn gyffredinol ar fyrddau cyrff cyhoeddus.

**Hyderus o ran Anabledd**

Mae’r Coleg yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu anablu pobl sydd ag amhariad neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain.

Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod staff ac aelod Bwrdd berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r

diffiniad meddygol o anabledd, sef “amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”.

Rydym yn gwarantu cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel cymhwysedd ar gyfer y rôl a’ch bod yn meddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai ‘hanfodol’.

Rydym wedi ymrwymo i benodi pobl anabl a datblygu eu gyrfaoedd. Os hoffech wneud cais o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, cysylltwch â ni i roi gwybod.

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio, cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

**Cyflwyno cais**

Gofynnir i'r sawl sydd â diddordeb ymgeisio i gysylltu gyda Dr Dylan Phillips, Ysgrifennydd y Coleg, (d.phillips@colegcymraeg.ac.uk) **erbyn 25 Medi 2026** i drefnu sgwrs ffôn i drafod rôl aelodau Bwrdd y Coleg ymhellach.

Dylid gwneud ceisiadau drwy lenwi'r ffurflen gais sydd i'w gweld ar wefan y Coleg, a dylai gael ei dychwelyd dros e-bost at d.phillips@colegcymraeg.ac.uk. Dylid hefyd llenwi a dychwelyd y ffurflen fonitro cyfle cyfartal.

Y dyddiad cau yw **12.00 ar 9 Hydref 2026**. Ni fydd ffurflenni cais a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Cynhelir cyfweliadau ar **2 Tachwedd 2026**. Gellir cynnal y cyfweliad yn rhithiol neu yn swyddfeydd y Coleg yng Nghaerfyrddin neu Gaerdydd.

Bydd y panel cyfweld yn cynnwys aelodau o Bwyllgor Penodiadau a Safonau Llywodraethiant y Coleg, dan gadeiryddiaeth Rhian Huws Williams. Disgwylir i'r ymgeiswyr a wahoddir i gyfweliad ddangos sut y maent yn bodloni'r gofynion a nodir yn y manylebau rôl a pherson, drwy ddarparu enghreifftiau a thystiolaeth berthnasol.